Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**

# Y pedwerydd adroddiad ar hugain i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9

Tachwedd 2025

senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddSafonau**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddSafonau@senedd.cymru**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**

# Y pedwerydd adroddiad ar hugain i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9

Tachwedd 2025

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddSafonau**

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Hannah Blythyn AS**
Llafur Cymru



**Mick Antoniw AS**
Llafur Cymru



**Tom Giffard AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Peredur Owen Griffiths AS**
Plaid Cymru

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ... 5**

**2. Ystyried y gŵyn ... 6**

**3. Y broses o drafod Penderfyniad y Pwyllgor ... 7**

Canfyddiadau Ffeithiol y Comisiynydd ... 7

Trafodaeth y Pwyllgor ... 10

Argymhellion y Pwyllgor ... 12

**4. Materion o Egwyddor Gyffredinol ... 15**

# 1. Cyflwyniad

**1.** Nodir cylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ("y Pwyllgor") yn Rheol Sefydlog 22.[1] Yn unol â'r swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 22.2, rhaid i'r Pwyllgor:

> *"mewn perthynas ag unrhyw gŵyn a gyfeirir ato gan y Comisiynydd Safonau…ymchwilio i'r gŵyn, cyflwyno adroddiad arni ac, os yw'n briodol, argymell camau mewn perthynas â hi."*[2]

**2.** Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer y Senedd yn unol â Rheol Sefydlog 22.9 a pharagraff 8.23 o'r Weithdrefn ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd ("y Weithdrefn")[3] ac mae'n ymwneud â chŵyn a wnaed i'r Comisiynydd Safonau ("y Comisiynydd").

**3.** Mae'r Pwyllgor hefyd wedi ystyried y trefniadau ar gyfer cyhoeddi adroddiad y Comisiynydd a'r dogfennau cysylltiedig. Er mwyn cadw'r rhai sy'n ymwneud â'r gŵyn hon yn ddienw, mae'r Pwyllgor wedi cytuno i grynhoi adroddiad a chanfyddiadau'r Comisiynydd yn ei adroddiad. Mae hyn yn unol â pharagraff 8.26 o'r weithdrefn, sy'n nodi fel a ganlyn:

> ***8.26.*** *Caiff y Pwyllgor olygu neu atal adroddiad y Comisiynydd yn ei gyfanrwydd – neu ran ohono – neu gyhoeddi crynodeb, os ystyrir bod hynny'n angenrheidiol. Rhaid nodi penderfyniad i olygu – a'r rheswm cyffredinol dros wneud hynny – yn adroddiad y Pwyllgor. Rhaid i'r rheswm dros wneud hynny naill ai:*
>
> *a. fod yn gyson â'r darpariaethau yn hysbysiad preifatrwydd y Pwyllgor; neu*
>
> *b. fod am resymau eraill pan fo'r Pwyllgor o'r farn bod risg o niwed neu drallod i unrhyw berson.*

**4.** Mae'r Pwyllgor wedi cytuno i gynnwys darnau perthnasol o'r adroddiad i ddiogelu hunaniaeth y personau a enwir yn adroddiad y Comisiynydd – o ystyried ei fod yn cynnwys sawl aelod o staff cymorth yr Aelodau.

[1] Rheolau Sefydlog
[2] Rheol Sefydlog 22.2(i)
[3] Gweithdrefn y Senedd ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd

# 2. Ystyried y gŵyn

5. Cafodd y Comisiynydd gŵyn mewn perthynas â Laura Anne Jones AS ym mis Ebrill 2024. Roedd yr Achwynydd yn honni bod yr Aelod wedi –

- gwneud hawliadau tanwydd twyllodrus neu ffug;
- gwneud sylw hiliol ac wedi methu â mynd i'r afael ag ymddygiad gwahaniaethol; a
- methu â gweithredu yn unol â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Senedd ("y Cod") wrth i'r Aelod ei diswyddo o'i chyflogaeth.

6. Oherwydd yr honiad o dwyll, ataliodd y Comisiynydd ystyried y gŵyn a chyfeirio'r mater at Heddlu De Cymru ynghyd â'r gŵyn, y pecyn tystiolaeth ac ymateb yr Aelod iddi. Cwblhaodd yr heddlu ei ymchwiliad ym mis Rhagfyr 2024, ac ar ôl hynny ailagorodd y Comisiynydd ei ymchwiliad ef.

7. Cyfarfu'r Pwyllgor ar 16 Medi, 7 Hydref, 13 Hydref a 20 Hydref 2025 i drafod adroddiad y Comisiynydd a dod i'w gasgliad mewn cysylltiad â'r gŵyn hon. Nododd y Pwyllgor fod Tom Giffard AS yn adnabod nifer o bobl a enwir yn yr adroddiad oherwydd ei swydd fel AS o'r Ceidwadwyr.

8. Mae'r adroddiad hwn yn nodi manylion am y gŵyn a thrafodaethau'r Pwyllgor wrth ddod i'w benderfyniad.

9. Darparwyd copi o'r adroddiad hwn i'r Aelod dan sylw ac i'r Achwynydd.

# 3. Y broses o drafod Penderfyniad y Pwyllgor

**10.** Bu'r Pwyllgor yn trafod p'un a dorrodd yr Aelod Reol Sefydlog 22.2(i).

**11.** Wrth drafod a fu achos o dorri'r Cod, adolygodd y Pwyllgor ganfyddiadau'r Comisiynydd fel y'u nodir yn ei adroddiad.

**12.** Ni fanteisiodd yr Aelod ar y cyfle i wneud sylwadau ysgrifenedig neu lafar i'r Pwyllgor. Cafodd y Pwyllgor sylwadau gan yr Achwynydd, a'u nodi.

## Canfyddiadau Ffeithiol y Comisiynydd

**13.** Roedd canfyddiadau ffeithiol y Comisiynydd fel a ganlyn. Mae'r rhain fel y'u nodir yn adroddiad y Comisiynydd, heb ddatgelu gwybodaeth bersonol:

### Hawliadau milltiredd

I. Ar 17 Gorffennaf 2023, cwblhaodd yr Aelod ffurflen yn awdurdodi'r Achwynydd i gwblhau a chyflwyno hawliadau treuliau ar ei rhan.

II. Cymerodd yr Achwynydd gyfrifoldeb am gwblhau a chyflwyno'r rheini ar 28 Awst 2023 wrth gael dyrchafiad i Ymchwilydd.

III. O'r dyddiad hwnnw, roedd yr holl hawliadau hynny wedi'u cwblhau gan yr Achwynydd a'u cyflwyno gan [yr Achwynydd] heb i'r Aelod eu gwirio.

IV. Ni roddodd yr Aelod unrhyw arweiniad i'r Achwynydd ar ddyletswyddau [yr Achwynydd] mewn perthynas â chwblhau a chyflwyno'r hawliadau hynny ac ni wnaeth ychwaith sicrhau bod yr Achwynydd yn ymwybodol o'r Rheolau a'r Canllawiau ar Ddefnyddio Adnoddau'r Senedd.

V. Ni chadwodd yr Aelod gofnod cywir o'r teithiau a wnaed ganddi y gellid gwneud hawliad yn briodol amdanynt.

VI. Er mwyn nodi teithiau i hawlio amdanynt, roedd rhaid i'r Achwynydd chwilio dyddiadur yr Aelod a chyfrif cyfryngau cymdeithasol yr Aelod.

VII. Gwnaeth yr Achwynydd ddehongli negeseuon a ddaeth i law gan yr Aelod a'i Huwch-gynghorydd, a oedd yn rheolwr llinell i'r [Achwynydd], fel cyfarwyddiadau i wneud hawliadau am deithiau nad oedd yr Aelod wedi'u gwneud.

VIII. Ni wnaeth yr Aelod gyfarwyddo'r Achwynydd i wneud hawliadau ffug ac nid oedd yn gwybod bod unrhyw berson arall wedi gwneud hynny.

IX. Er bod yr Achwynydd yn gwybod bod gofyn i'r [Achwynydd] fod yn rhan o'r broses o gyflwyno hawliadau ffug a thwyllodrus wrth ddehongli'r negeseuon, ni wrthwynebodd yr Achwynydd nes i'r [Achwynydd] wneud y gŵyn, a hynny ar ôl i gyflogaeth [yr Achwynydd] gael ei therfynu.

X. Hyd yn oed ar ôl i'r [Achwynydd] benderfynu cyflwyno cwyn, ni roddodd [yr Achwynydd] wybod i'r heddlu am yr hawliadau yr honnir eu bod yn dwyllodrus.

XI. Ar ôl dod yn ymwybodol y gall yr Achwynydd fod wedi gwneud hawliadau anghywir ar ei rhan, adolygodd yr Aelod yr holl hawliadau a gwblhawyd ac a gyflwynwyd gan yr Achwynydd.

XII. Nododd yr Aelod nifer o hawliadau am deithiau nad oedd wedi'u gwneud ac mae wedi ad-dalu'r swm a gafodd mewn cysylltiad â hwy i'r Comisiwn.

XIII. Cynhaliodd Heddlu De Cymru ymchwiliad llawn a thrwyadl i honiad yr Achwynydd bod yr Aelod wedi gwneud hawliadau treuliau twyllodrus.

**Sylwadau amhriodol**

XIV. Ac eithrio dau sylw (na ellir ystyried yn briodol eu bod yn sarhaus), ni chlywodd yr Aelod unrhyw un o'r sylwadau sarhaus yr honnir bod [aelod o staff] wedi'u gwneud am yr Achwynydd neu deulu [yr Achwynydd].

XV. Nid oedd yr Aelod yn gwybod am unrhyw sylwadau amhriodol yr honnir bod [aelod o staff] wedi'u gwneud am yr Achwynydd na theulu [yr Achwynydd] cyn galwad ffôn gan MBS ar 1 Mawrth 2024.

XVI. Ym mis Awst 2023, mewn grŵp WhatsApp yr oedd hi a'r Achwynydd yn aelodau ohono, postiodd yr Aelod: "No chinky spies for me."

XVII. Bryd hynny, roedd pryder cyhoeddus am y defnydd o TikTok gan Lywodraeth Tsieina i gasglu gwybodaeth.

XVIII. Gwnaed y sylw mewn ymateb i sylw gan ei [haelod o staff] yn nodi bod y mater TikTok wedi'i godi mewn cyfarfod o'r Grŵp Ceidwadol yn gynharach y diwrnod hwnnw.

XIX. Mae'r Aelod wedi derbyn bod ei sylw yn gwbl amhriodol ac annerbyniol ac wedi ymddiheuro amdano.

XX. Ym mis Awst 2023, mewn cyfres o negeseuon WhatsApp gydag [aelod o staff] cyfeiriodd yr Aelod at gyn-aelod o staff gan regi a dweud ei fod yn berson chwerw, gwyrgam ei feddwl a diwerth a nododd: "I tried to be so understanding. I even asked if [they] had ADHD or something and if [they] needed extra support … cos something isn't right with [them]!?" Yn yr un gyfres o negeseuon, cyfeiriodd [yr aelod o staff] at yr un person fel "Grade A [gair rhegi]."

XXI. Roedd yn ddrwg gan yr Aelod bod y sylwadau hyn wedi dod yn gyhoeddus.

XXII. Ar 13 Tachwedd 2023, mewn cyfres o negeseuon WhatsApp gyda'r Aelod, postiodd [aelod o staff]: "And Suella was correct in what she said too. We have two tier policing. It was clear over the weekend if your white working class you get hammered, if you're an Islamist it's all fine, spew all the hate you want."

XXIII. Er bod yr Aelod wedi derbyn bod y sylw yn annerbyniol, ni wnaeth geryddu'r [aelod o staff].

XXIV. Ar 14 Tachwedd 2023, mewn cyfres o negeseuon WhatsApp gyda'r Aelod disgrifiodd [aelod o staff] y Prif Weinidog ar y pryd fel gwenci.

XXV. Nid oedd yr Aelod yn ystyried bod y sylw yn arbennig o sarhaus ac ni chymerodd unrhyw gamau gweithredu.

**Diswyddo**

XXVI. Peidiodd yr Achwynydd â bod wedi'i gyflogi gan yr Aelod ar 4 Mawrth 2024.

XXVII. Er bod yr Achwynydd wedi cael cyngor cyfreithiol ar ôl terfynu cyflogaeth [yr achwynydd], nid yw'r [achwynydd] wedi cychwyn achos ar gyfer diswyddo annheg.

XXVIII. Penderfynodd yr Aelod derfynu cyflogaeth yr Achwynydd ar 29 Chwefror 2024 cyn dod yn ymwybodol, ar 1 Mawrth 2024, o'r honiadau o fwlio a chamymddwyn yr oedd [yr achwynydd] yn eu gwneud yn erbyn [aelod o staff].

XXIX. Gwnaed y penderfyniad hwnnw oherwydd perfformiad anfoddhaol yr achwynydd yn rôl ymchwilydd yr oedd [yr achwynydd] wedi'i benodi iddi ar 28 Awst 2023.

XXX. Cyn y diswyddo, roedd yr Aelod a'r Achwynydd yn mwynhau perthynas waith agos a chyfeillgar.

XXXI. Cyn diswyddo'r [achwynydd], ni wnaeth yr achwynydd gwyno i'r Aelod am unrhyw gamymddwyn gan naill ai'r [aelod o staff] na'r Aelod er bod [yr achwynydd] wedi siarad â Gwasanaethau Busnes yr Aelodau ar 1 Mawrth 2024 am fwlio a honnir gan [aelod o staff].

## Trafodaeth y Pwyllgor

### Hawliadau milltiredd

**14.** Mewn perthynas â'r hawliadau milltiredd, nododd y Comisiynydd:

> *"The Member has neither been convicted of, nor admitted any offence. The allegation was fully investigated by the South Wales Police Economic Crime Unit over a period of more than seven months and 'no evidence of fraud was found'."*

**15.** Canfu'r Comisiynydd fod yna adroddiadau gwahanol o sut y gwnaed yr hawliadau milltiredd anghywir, ond ei fod yn fodlon wrth bwyso a mesur fod fersiwn yr Aelod o ddigwyddiadau yn fwy tebygol na pheidio o fod yr un gywir. Fel y cyfryw nid oedd yn gweld ei bod yn nodi bod yr Aelod wedi gwneud hawliadau milltiredd twyllodrus.

**16.** Wrth lunio'r farn honno, nododd y Comisiynydd nad oedd yr Aelod wedi darparu hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad[4] neu'r Rheolau a'r Canllawiau ar Ddefnyddio Adnoddau'r Senedd[5], sy'n fethiant â chydymffurfio â Rheol 24:

> *"Rhaid i Aelodau gymryd camau rhesymol i sicrhau bod eu staff, wrth weithredu ar eu rhan, hefyd yn cynnal ac yn gweithredu yn unol â'r Rheolau hyn a'r Egwyddorion Cyffredinol."*

Ar ôl ystyried yr wybodaeth sydd ar gael, yn benodol yr Heddlu yn nodi nad oedd wedi dod o hyd i unrhyw dystiolaeth o dwyll, cytunodd y Pwyllgor â

[4] Cod Ymddygiad ar Safonau Ymddygiad Aelodau o'r Senedd
[5] Rheolau a Chanllawiau ar Ddefnyddio Adnoddau'r Senedd

chasgliad y Comisiynydd nad oedd y Cod Ymddygiad wedi'i dorri mewn perthynas â gwneud hawliadau milltiredd twyllodrus.

**Sylwadau amhriodol**

**17.** Roedd canfyddiadau'r Comisiynydd (Canfyddiadau XX a XVI) yn nodi bod yr Aelod wedi gwneud sylwadau sarhaus ac nad oedd wedi cymryd camau gweithredu pan oedd aelod o staff wedi gwneud sylwadau sarhaus (Canfyddiadau XXII a XXIV). Ystyriodd y Comisiynydd a oedd ymddygiad yr Aelod yng Nghanfyddiadau XVI a XX yn gyfystyr â thorri Rheol 3 (dyletswydd i beidio â dwyn anfri ar y Senedd), Rheol 4 (dyletswydd i beidio â gwahaniaethu ac ati) neu Reol 6 (ymosod yn bersonol). Nododd:

> *"The comment in Finding XVI ('no chinky spies') was not a personal attack and so did not breach Rule 6. I agree with the Member that the comment was "completely inappropriate and unacceptable". But even having regard to the context in which it was made (Findings XVII and XVIII) and the enhanced protection of the right to freedom of expression enjoyed by the Member, it is my opinion that it amounted to a breach of the Respect Principle and so of Rule 1, Rule 3 and Rule 4. And even allowing for that enhanced protection, I am satisfied that the comments made by the Member about her former staff Member (Finding XX) amounted to a clear breach of Rule 6."*

**18.** Canfu'r Comisiynydd hefyd fod yr Aelod, drwy fethu â herio'r aelod o staff am y sylwadau sarhaus ac annerbyniol yng Nghanfyddiadau XX a XXII, wedi methu â chynnal yr Egwyddor Arweinyddiaeth ac felly wedi torri Rheol 1.

Ar ôl ystyried yr wybodaeth a oedd ar gael a'r holl sylwadau, cytunodd y Pwyllgor â chasgliad y Comisiynydd bod yr Aelod wedi torri'r darpariaethau a ganlyn yn y Cod Ymddygiad:

- Rheol 1 (methiant â chynnal yr Egwyddor Arweinyddiaeth)
- Rheol 3 (dyletswydd i beidio â dwyn anfri ar y Senedd)
- Rheol 4 (dyletswydd i beidio â gwahaniaethu)
- Rheol 6 (dyletswydd i beidio ag ymosod yn bersonol ar unrhyw un mewn modd sy'n ormodol neu'n gamdriniol) a

- Rheol 24 (dyletswydd i gymryd camau rhesymol i sicrhau bod eu staff, wrth weithredu ar eu rhan, hefyd yn cynnal ac yn gweithredu yn unol â'r Rheolau hyn a'r Egwyddorion Cyffredinol)

**Diswyddo**

**19.** Dywedodd y Comisiynydd nad oedd y canlynol yn ddyletswydd arno ef:

> *"…to investigate whether the Complainant's dismissal by the Member was fair. [and]….that matter was for another forum."*

**20.** Fe wnaeth y Comisiynydd ystyried a oedd yr Aelod wedi torri unrhyw ddarpariaethau yn y Cod yn y cyfnod cyn y diswyddo. Dywedodd y Comisiynydd, er nad oedd cyfarfodydd adolygu perfformiad ffurfiol, fod adborth perfformiad rheolaidd wedi'i roi, ac y gellir disgrifio'r broses anffurfiol hon fel system adolygu perfformiad.

**Argymhellion y Pwyllgor**

**21.** Mae achos o dorri'r Cod Ymddygiad gan unrhyw Aelod o'r Senedd yn fater difrifol ym marn y Pwyllgor. Mae enw da Senedd Cymru, a ffydd a hyder y cyhoedd yn y sefydliad, yn dibynnu ar allu'r Aelodau i ddangos uniondeb ac arweiniad drwy eu gweithredoedd.

**22.** Mae'r Pwyllgor yn glir nad oes lle i sylwadau amhriodol a sarhaus yn ein Senedd, nac yn ein cymdeithas yn ehangach. Roedd y negeseuon hyn wedi'u cynnwys mewn sgwrs WhatsApp ar gyfer grŵp swyddfa, yn hytrach na fforwm cyhoeddus; fodd bynnag, mae'r Cod yn glir ei fod yn gymwys i'r Aelodau bob amser. Bwriad y ddarpariaeth hon yw sicrhau ein bod ni fel Aelodau yn ymddwyn yn unol â'r safon ofynnol ym mhob agwedd ar ein bywydau.

**23.** Roedd yr ymddygiad a ganfuwyd yn yr adroddiad hwn yn llawer is na'r safonau a ddisgwylir. Mae'n dangos diwylliant swyddfa lle nad oedd llawer o barch tuag at eraill nac unrhyw ystyriaeth o'r hyn y gellir ei chael yn sarhaus.

**24.** Wrth ddod i'w benderfyniad, ystyriodd y Pwyllgor y ffactorau lliniarol a nodwyd gan y Comisiynydd yn ei adroddiad. Nododd y Comisiynydd y ffactorau lliniarol a ganlyn:

- yr amser sydd wedi mynd heibio ers i'r toriadau ddigwydd
- iechyd meddwl ac iechyd corfforol yr [Aelod] ar yr adeg y cyflwynwyd yr hawliadau milltiredd ffug ac y gwnaed y sylwadau amhriodol

- y cyhoeddusrwydd andwyol y mae hi eisoes wedi'i gael ar ôl i wybodaeth am y gŵyn gael ei gollwng i'r cyfryngau yn ddienw, ac o ganlyniad i ymchwiliad yr heddlu a'r ymchwiliad
- ad-daliad gan yr Aelod i'r Comisiwn o'r symiau a hawliwyd yn amhriodol ar ei rhan gan yr Achwynydd
- yr ymddiheuriadau y mae'r [Aelod] wedi'u rhoi am ei chamymddygiad
- diffyg unrhyw gysylltiad achosol rhwng torri Rheol 24 a'r hawliadau ffug a gyflwynwyd gan yr Achwynydd.

**25.** Nododd y Pwyllgor fod yr Aelod wedi ad-dalu'r symiau sy'n gysylltiedig â'r hawliadau ffug a nododd ymhellach y diffyg cysylltiad achosol rhwng torri Rheol 24 a'r hawliadau ffug a gyflwynwyd gan yr Achwynydd, ond nid oedd yn ystyried y rhain wrth ddod i benderfyniad ar sancsiwn gan na chanfuwyd bod y rhannau hyn o'r gŵyn yn gyfystyr â thorri'r rheolau.

**26.** Nododd y Pwyllgor fod yr Aelod wedi ymddiheuro ac wedi mynegi edifeirwch bod y negeseuon wedi mynd yn gyhoeddus. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod yr Aelod a'i staff wedi ymgymryd â hyfforddiant amrywiaeth ers gwneud y sylwadau hyn.

**27.** Nid oedd y Pwyllgor o'r farn bod yr amser a aeth heibio yn ffactor lliniarol yn hyn o beth, gan fod llawer o'r oedi oherwydd ymchwiliad yr heddlu.

**28.** Nododd y Pwyllgor y ffaith bod gwybodaeth wedi'i rhyddhau heb awdurdod i'r cyfryngau drwy gydol y gŵyn hon. Fodd bynnag, nid ydym yn ystyried bod hyn yn ffactor lliniarol ar gyfer yr achosion a ganfuwyd o dorri'r rheolau, o ystyried nad yw'n cael effaith ar weithredoedd yr Aelod. Mewn gwirionedd, fe wnaeth yr Aelod ei hun hyd yn oed wneud sylwadau ar adroddiad y Comisiynydd cyn iddo gael ei ddarparu i Aelodau'r Pwyllgor hwn.

**29.** Nododd y Pwyllgor fod yr Aelod yn dioddef o iechyd corfforol ac iechyd meddwl gwael ar adeg yr hawliadau milltiredd ffug, a rhai o'r sylwadau a adroddwyd. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor o'r farn bod y canfyddiadau yn dangos patrwm o ddiwylliant gwael o fewn swyddfa'r Aelod yn hytrach nag un digwyddiad yn unig.

**30.** Ar ôl ystyried yr achosion o dorri'r rheolau a'r ffactorau lliniarol a nodwyd gan y Comisiynydd, mae'r Pwyllgor wedi penderfynu bod modd cyfiawnhau sancsiwn i wahardd yr Aelod o drafodion y Senedd ar yr achlysur hwn.

**31.** Wrth ddod i’w benderfyniad ar hyd y gwaharddiad, ystyriodd y Pwyllgor nifer o ffactorau, gan gynnwys penderfyniadau’r Pwyllgor hwn a Phwyllgor Safonau Ymddygiad y Pumed Senedd pan fo sancsiynau gwahardd wedi’u cymhwyso, er mwyn sicrhau bod hyd y gwaharddiad yn yr achos hwn yn sancsiwn teg a chymesur yng ngoleuni difrifoldeb y mater hwn.

**Argymhelliad 1.** Mae’r Pwyllgor Safonau Ymddygiad, yn unol â pharagraff 8.22(a) o’r Weithdrefn ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau o’r Senedd a Rheol Sefydlog 22.10, yn argymell bod Laura Anne Jones AS yn cael ei gwahardd o drafodion y Senedd am gyfnod o 14 o ddiwrnodau calendr.

# 4. Materion o Egwyddor Gyffredinol

**32.** Nododd y Pwyllgor fod y gŵyn hon wedi cymryd cyfnod sylweddol o amser, ac roedd hyn yn rhannol oherwydd ei bod wedi'i chyfeirio at Heddlu De Cymru a'r amser a gymerwyd i gynnal ymchwiliad o'r fath. Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol y bydd hyn wedi cael effaith ar yr Achwynydd a'r Aelod. Hoffai'r Pwyllgor atgoffa'r rhai sy'n mynd drwy'r broses gwyno bod cymorth ar gael iddynt drwy'r amser.

**33.** Mae'n fater o ddrwg mawr i'r Pwyllgor bod gwybodaeth am y gŵyn hon wedi'i rhyddhau i'r wasg o bryd i'w gilydd yn ystod yr ymchwiliad. Yn ogystal â rhyddhau gwybodaeth i'r cyhoedd, nododd y Pwyllgor fod yr Aelod wedi siarad am ganlyniad adroddiad y Comisiynydd yn y Sioe Frenhinol, ac ymatebodd arweinydd ei phlaid i gwestiynau mewn perthynas â'r adroddiad.[6]

**34.** Mae adroddiadau'r wasg yn dangos bod allfeydd cyfryngau wedi cael adroddiad llawn y Comisiynydd yn haf 2025, sef cyn i'r adroddiad gael ei ddarparu i'r Pwyllgor hwn.

**35.** Mae rhyddhau gwybodaeth heb awdurdod yn tanseilio'r broses gwyno. Mae'n ddyletswydd ar bob parti sy'n rhan o'r broses i gadw cyfrinachedd drwy'r amser, gan mai dyma'r unig ffordd y gellir cynnal hyder yn y system.

**36.** Nododd y Pwyllgor sylwadau gan yr Achwynydd ynghylch dull y Comisiynydd o ymdrin â niwroamrywiaeth. Cododd y Pwyllgor y pryderon hyn gyda'r Comisiynydd a nododd yr addasiadau a wnaed gan y Comisiynydd yn yr achos hwn. Mae'r Pwyllgor yn cymryd y pryderon hyn o ddifrif ac mae'n glir y dylai pawb deimlo'n gyfforddus a chael ei gefnogi wrth ymgysylltu â'r broses gwyno. Yn unol â hynny, mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Comisiynydd ar ddechrau ymchwiliad yn cymryd camau i ystyried a oes angen unrhyw addasiadau rhesymol i amgylchiadau'r Achwynydd a dylai sicrhau bod mecanweithiau cymorth priodol ar waith ac ar gael yn rhwydd fel mater o drefn.

**37.** Nododd y Pwyllgor y ffaith bod nifer o adroddiadau yn y cyfryngau ynghylch y gŵyn hon, sy'n cyfeirio at y defnydd o gytundebau peidio â datgelu (NDAs) yn swyddfa'r Aelod. Cadarnhaodd y Pwyllgor gyda'r Comisiynydd nad oedd cytundebau o'r fath wedi cael eu codi gan neb yn ystod ei ymchwiliad. Mae'r defnydd o gytundebau peidio â datgelu gan Aelodau o'r Senedd yn fater y bydd y Pwyllgor efallai'n rhoi ystyriaeth bellach iddo.

---

[6] www.bbc.co.uk/news/articles/c2le45rj1dno